
# Nawtwll

(Nine Men's Morris)

Mae gan bob chwaraewr naw darn y maen nhw'n cymryd eu tro i'w gosod, un darn ar y tro, ar y pwyntiau ar y bwrdd. Mae'r nod ar gyfer pob chwaraewr ydy rhoi eu darnau ar y tri phwynt ar linell syth, naill ai'n fertigol neu'n llorweddol, gan y bydd hyn yn caniatáu iddynt dynnu un o ddarnau eu gwrthwynebydd.

**Enghraifft**



## Rheolau

### 1. I Osod Darnau

Mae'r chwaraewyr yn cymryd eu tro i osod eu darnau ar bwyntiau'r bwrdd. Pryd bynnag mae chwaraewr yn ffurfio rhes o dri - neu 'felin' - gallant dynnu un o ddarnau eu gwrthwynebydd oddi ar y bwrdd, ond nis gallant ei gymeryd o felin.

### 2. I Symud Darnau

Pan fydd yr holl ddarnau wedi'u gosod ar y bwrdd, mae'r chwaraewyr yn cymryd eu tro i symud un o'u cownteri ar hyd llinell i bwynt gwag wrth ei ymyl. Efallai na fydd chwaraewyr yn colli tro - rhaid symud darn hyd yn oed os yw o dan anfantais y chwaraewr.

Pan fydd gan un o'r chwaraewyr dim ond tri darn ar ôl ar y bwrdd, caiff y chwaraewr hwnnw 'hedfan' i unrhyw pwynt gwag ar y bwrdd - yn lle symud i un sydd nesaf ato. Gallant wneud hyn i rwystro eu gwrthwynebydd rhag ffurfio melin.

### 3. I Ennill

Mae chwaraewr yn ennill pan nad oes gan eu gwrthwynebydd ond dau ddarn ar ôl ar y bwrdd neu ni allant symud dim o'u darnau.

